



**LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI**



Canolfan Ddiwylliant Conwy – Beth yw'r newyddion diweddaraf?

Ym mis Rhagfyr 2015 derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y newyddion cyffrous fod Cronfa Treftadaeth y Loteri yn mynd i ariannu cam datblygu ein prosiect i greu Canolfan Ddiwylliant i Gonwy. Nod y prosiect hwn yw adeiladu llyfrgell ardal ar gyfer Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno, cartref ar gyfer casgliadau ein harchifau ac amgueddfa, caffi a gofod ar gyfer gweithgareddau cymunedol, celf ac ieuencid ar safle hen ysgol Bodlondeb ar Town Ditch Road yn nhref Conwy. Bellach, mae'r cam datblygu hwn yn dod i ben a bydd cynlluniau manwl yn cael eu cyflwyno i Awdurdod Cynllunio Conwy. Bydd cais am grant ychwanegol i greu'r ganolfan hefyd yn cael ei gyflwyno yn fuan i Gronfa Treftadaeth y Loteri er mwyn cwblhau'r pecyn ariannu.

Pwy wnaethom ni ofyn i roi eu barn a chynnig awgrymiadau?

Roeddem eisiau i gynifer o drigolion Conwy â phosibl i roi eu barn. Roeddem wrth ein bodd fod 600 ohonoch wedi cymryd rhan yn ein hymgyngoriad. Fe wnaethom siarad gyda defnyddwyr presennol, trigolion â phryderon yn ymwneud â mynediad, ysgolion, grwpiau ieuencid ac unigolion. Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd, grwpiau ffocws a gweithdai celf gydag artist y prosiect, yn ogystal â dosbarthu holiaduron papur ac ar-lein. Hefyd, fe wnaethom ofyn i 168 o dwristiaid a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn ymweld â'r ganolfan.

Diolch i bawb a gyfrannodd!

Beth wnaethoch chi ei ddweud wrthym?

Roedd gan 600 o bobl lawer i'w ddweud, ond dyma rai o'r prif bwyntiau:

Ynglŷn â'r adeilad newydd – rydych yn poeni a fydd dyluniad yr adeilad newydd yn gweddu i'w leoliad ger muriau'r dref a gerllaw Castell Conwy; byddech yn hoffi i ni barchu treftadaeth yr adeilad presennol ar safle Bodlondeb; nid ydych am i'r Ganolfan “edrych fel archfarchnad”; rydych eisiau mynediad diogel i gerddwyr a lle parcio cyfleus i geir. Roedd gan drigolion ag anableddau bryderon penodol ynglŷn â sut y gallent gael mynediad at y ganolfan. Dywedodd 94% o'r twristiaid a gafodd eu holi y byddai ganddynt ddiddordeb mewn ymweld â'r ganolfan newydd.

Ynglŷn â'r gwasanaethau a'r gweithgareddau y gellid eu darparu yn y ganolfan newydd – boed hen neu ifanc, rydych yn awyddus i weld cyfleoedd ar gyfer ymchwilio i hanes teulu,

archaeoleg, ffotograffiaeth a chyfrannu at arddangosfeydd. Gofynnwyd i bobl ifanc a oedd ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiectau celf. Roedd oedolion yn awyddus i ddysgu am gasgliadau hanesyddol a sut i weithio ac ymdrin â nhw, ac roeddynt am weld digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y teulu.

Fe wnaethoch sôn wrthym am themâu o gasgliadau hanesyddol Conwy sydd o ddiddordeb i chi.

Sut rydym yn ymateb?

Ynglŷn â'r adeilad newydd – mae arbenigwr treftadaeth wedi cynnal asesiad ar y safle presennol. Mae adeilad yr ysgol bresennol yn un o nifer o adeiladau a gynlluniwyd gan yr un pensaer ac ym marn yr arbenigwr, nid yw'n enghraifft dda o'i waith nac arddull. Oherwydd y byddai'n anodd creu canolfan ddiwylliant trwy adeiladu estyniad ar yr hen adeilad rydym yn bwriadu ei ddymchwel. Byddwn yn cadw'r cof amdano'n fyw trwy aildefnyddio cerrig o'r adeilad ac yn bwysicach fyth trwy hel atgofion cyn-ddisgyblion, rhieni a staff i greu arddangosfa yn y ganolfan newydd.

Fe wnaethom ofyn i'n pensaer newid ei gynlluniau. Mae'r gynlluniau newydd yn dangos adeilad syml, isel sydd wedi ei osod yn ôl o'r ffordd ac a fydd yn ymdoddi i'r parcdir gyda mwy o goed a thirlunio. Caiff deunyddiau naturiol a gwyrdr eu defnyddio lle bo hynny'n bosibl.

Mae gennym gynlluniau ar gyfer y trefniadau parcio; nid oes maes parcio i gwsmeriaid ar hyn o bryd yn Llyfrgell Conwy, ond bydd manau parcio anabl yn y ganolfan newydd a bydd o fewn cyrraedd hwylus ar droed i ddau faes parcio cyhoeddus, y mae un ohonynt am ddim yn ystod yr wythnos. Mae arhosfan bws a'r orsaf drenau hefyd o fewn pellter cyfleus. Byddwn yn adeiladu croesfan newydd i gerddwyr er mwyn gwella diogelwch. Rydym wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan amryw o grwpiau anghenion arbennig a byddwn yn ymgorfforio nodweddion fel llwybrau cerdded ar lethr a gardd synhwyrdd er mwyn i bawb gael mynediad at y ganolfan a mwynhau'r gweithgareddau a gaiff eu cynnal yno.

Mae gennym gynllun dehongli ar gyfer y ganolfan. Bydd y Ganolfan yn borth i dreftadaeth y Sir, yn defnyddio'r straeon am hanes Sir Conwy a'i phobl sydd mor bwysig i chi. Byddwn yn eu defnyddio ar y cyd â'n casgliadau hanesyddol i greu arddangosfeydd.

Ynglŷn â'r gwasanaethau a gweithgareddau – rydym wedi llunio "Cynllun Gweithgaredd" a fydd yn dechrau pan gaiff y ganolfan ei hadeiladu, i adlewyrchu eich diddordebau. Bydd hwn yn cynnwys sesiynau blasu ar amrywiaeth eang o weithgareddau celfyddydol a threftadaeth; rhaglen arddangosfeydd; cyfleoedd gwirfoddoli, gan gynnwys rhai a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc; canolbwynt celfyddydol a gwasanaeth treftadaeth ysgolion. Byddwn hefyd yn mynd â'r ganolfan ar daith, gan ddod ag arddangosfeydd, gweithgareddau a chyingor am hanes teulu i ganolfannau ar draws Sir Conwy.

A fyddech chi'n hoffi gwybod mwy?

Rydym eisiau rhannu'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd gyda chi. Beth am alw heibio Llyfrgell Conwy ddydd Mawrth, 18 Hydref, unrhyw bryd rhwng 10am ac 8pm i gael sgwrs gyda ni am y cynigion?

Yna, bydd modd gweld y cynlluniau a'r cais cynllunio drafft yn Llyfrgell Conwy o 1 Tachwedd tan 29 Tachwedd ac yn www.conwy.gov.uk/canolfanddiwylliant a www.facebook.com/diwylliantconwyculture

Bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i Awdurdod Cynllunio Conwy cyn diwedd y flwyddyn.